
Swansea University Prifysgol Abertawe | Sustainability Cynaliadwyedd

# Y System Rheoli Amgylcheddol
# 8.1.17 Polisi a threfniadau
# Teithio Busnes

Cyhoeddwyd: Mehefin 2023

| | |
|---|---|
| **Awduron:** | Jayne Cornelius, Emily Ingram |
| **Cymeradwywyd gan:** | Teifion Maddocks |
| **Dyddiad Adolygu** | Mehefin 2026 |
| **Cyf Cymal:** | Eco-gampws ac ISO14001(2015): 8.1.17 |

**PEIDIWCH AG ARGRAFFU ONI BAI BOD ANGEN**



# Teithio Busnes Cynaliadwy

## 1 Diben

Yn 2019, cyhoeddodd y Brifysgol argyfwng hinsawdd, gan gydnabod yr angen dybryd i newid tuag at weithrediadau carbon isel. Lluniwyd y Polisi a'r trefniadau Teithio Busnes hyn i alluogi staff a myfyrwyr i leihau allyriadau carbon yn sylweddol fel rhan o'n huchelgais "Y Trywydd i Sero".

| | |
|---|---|
| DILEU | • Osgoi teithio, defnyddo technoleg (TGCh) os yw'n ofynnol yn unol â'r hierarchaeth deithio |
| LLEIHAU | • Teithio llai a/neu am bellterau byrrach |
| AMNEWID | • Dewis y dull teithio â'r effaith carbon leiaf yn unol â'r hierarchaeth deithio |
| GWRTHBWYSO | • Gwrthbwyso allyriadau o deithiau nad oes modd eu hosgoi drwy fuddsoddi mewn prosiectau lleihau carbon yn yr atmosffer |

**Ffigur 1:1 Ein dull pedwar cam i leihau allyriadau carbon ac effeithiau sy'n gysylltiedig â theithio**

## 2 Cwmpas

Mae'r polisi a'r trefniadau hyn yn berthnasol i'r holl staff, myfyrwyr ac ymwelwyr (pan fo Prifysgol Abertawe'n talu eu costau teithio) sy'n teithio at ddiben busnes ar ran Prifysgol Abertawe.

Byddwn yn tynnu sylw ymwelwyr eraill, cyflenwyr a chontractwyr at y Polisi a'r trefniadau Teithio Busnes hefyd. Bydd yn ofynnol iddynt roi'r hierarchaeth deithio ar waith wrth gyflenwi nwyddau a gwasanaethau, gweithgareddau a gweithrediadau ar ran Prifysgol Abertawe. Yn gyfrifol am hyn fydd yr aelod staff/myfyriwr cyswllt/trefnydd allweddol sy'n gyfrifol am y gweithgaredd penodol (e.e. cynhadledd, gweithdy, cyfarfod, contract, prosiect etc).




Ffigur 2: Ffigur 2: Yr Hierarchaeth Deithio

# 3 Diffiniadau

**Teithio Llesol:** Dulliau actif a chorfforol o deithio megis cerdded neu feicio.

**Gweithgareddau busnes:** Gweithgareddau mae staff a myfyrwyr y Brifysgol yn ymgymryd â nhw i gyflawni targedau strategol a gwella'r amgylchedd dysgu ac ymchwil. Gallai'r rhain gynnwys gwaith recriwtio, cyflwyno mewn cynadleddau, lleoliadau gwaith a gwaith maes myfyrwyr, cymryd rhan mewn arholiad llafar etc.

**Gwrthbwyso carbon:** Buddsoddi mewn prosiectau â'r prif nod o leihau carbon deuocsid yn yr atmosffer, e.e. buddsoddi mewn technolegau lleihau carbon neu ddal carbon mewn deunydd organig neu drwy gyfrwng arall. Mae'r Brifysgol yn cydnabod mai gwrthbwyso yw'r opsiwn gwannaf yn yr hierarchaeth deithio a'i unig bwrpas yw gwneud iawn yn amgylcheddol drwy wrthbwyso allyriadau teithio na ellir eu hosgoi pan fydd yr holl opsiynau eraill wedi cael eu hystyried.

**Gofalwr:** Mae gofalwr yn golygu unrhyw un, gan gynnwys plant ac oedolion, sy'n gofalu am aelod o'r teulu, partner neu ffrind y mae angen cymorth arno oherwydd

salwch, gwendid, anabledd, problem iechyd neu gaethiwed i sylweddau ac nid yw'n gallu ymdopi heb gymorth y gofalwr. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n gofalu am blant. Mae eu gofal yn ddi-dâl.

**Argyfwng yr Hinsawdd:** Yn ôl y diffiniad yng Ngeiriadur Rhydychen - sefyllfa lle mae angen gweithredu brys i leihau neu atal newid yn yr hinsawdd ac osgoi difrod amgylcheddol efallai na fydd modd ei wrthdroi o ganlyniad iddo.

**Y Trywydd i Sero:** Rhaglen Prifysgol Abertawe i leihau allyriadau carbon Cwmpas 1 a Chwmpas 2 i sero erbyn 2035, a thargedau ychwanegol i reoli allyriadau Cwmpas 3.

**Uned Gwasanaeth Proffesiynol (UGP):** Meysydd gweinyddol y Brifysgol.

**Trafnidiaeth Gyhoeddus:** Trafnidiaeth (e.e. bysus, trenau) sydd ar gael i'r cyhoedd, sy'n codi taliadau penodol ac sy'n teithio ar lwybrau penodol.

**Cwmpas 1** (Allyriadau uniongyrchol): Gweithgareddau sy'n eiddo i'ch sefydliad neu a reolir ganddo sy'n rhyddhau allyriadau'n uniongyrchol i'r atmosffer. Allyriadau uniongyrchol yw'r rhain. Mae enghreifftiau o allyriadau cwmpas 1 yn cynnwys allyriadau o hylosgi mewn boeleri, ffwrneisiau, cerbydau sy'n eiddo i'r sefydliad neu a reolir ganddo; allyriadau o brosesau cynhyrchu cemegau mewn cyfarpar prosesu sy'n eiddo i'r sefydliad neu a reolir ganddo.[1]

**Cwmpas 2** (Ynni anuniongyrchol): Allyriadau a gaiff eu rhyddhau i'r atmosffer sy'n gysylltiedig â'ch defnydd o drydan, gwres, ager ac oeri a brynwyd gennych. Allyriadau anuniongyrchol yw'r rhain, o ganlyniad i weithgareddau eich sefydliad, ond sy'n cael eu rhyddhau gan ffynonellau nad ydych yn berchen arnynt nac yn eu rheoli.[2]

**Cwmpas 3** (allyriadau anuniongyrchol eraill): Allyriadau o ganlyniad i'ch gweithgareddau, sy'n cael eu rhyddhau gan ffynonellau nad ydych yn berchen arnynt nac yn eu rheoli ac nad ydynt wedi'u categoreiddio fel allyriadau cwmpas 2. Mae enghreifftiau o allyriadau cwmpas 3 yn cynnwys dulliau teithio busnes nad yw eich sefydliad yn berchen arnynt nac yn eu rheoli, gwaredu gwastraff, neu ddeunyddiau neu danwyddau a brynwyd.[2]

**Cerbyd Allyriadau Isel Iawn (ULEV):** term a ddefnyddir i ddisgrifio cerbyd sy'n defnyddio technolegau carbon isel; sy'n allyrru llai na 0.075 cilogram o CO2 fesul cilomedr o'r biben wacáu; a/neu sy'n gallu gweithredu heb ryddhau allyriadau o'r biben wacáu am o leiaf 10 milltir.

**Cerbydlu'r Brifysgol:** Grwpiau o gerbydau modur sy'n eiddo i'r Brifysgol neu a brydlesir gan y Brifysgol, o fewn Cyfadran/UGP neu'n ganolog.

[1] Arweiniad DEFRA ynghylch sut i fesur eich allyriadau nwyon tŷ gwydr ac adrodd arnynt (Medi 2016)

# 4 Cyfrifoldebau

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor Cynaliadwyedd y Brifysgol** | • Goruchwylio'r cynlluniau gweithredu ar sail thema sy'n ymwneud â'r Strategaeth a Pholisi Cynaliadwyedd ac Argyfwng Hinsawdd - gan gynnwys y Cynllun Teithio Cynaliadwy a Chynllun Trosiannol yr Argyfwng Hinsawdd: "Y Trywydd i Sero" |
| **Y Tîm Cynaliadwyedd** | • Gweithio gyda'r Cyfadrannau a'r UGP i wreiddio'r Polisi a'r trefniadau hyn a'r hierarchaeth deithio yn ymarfer y Cyfadrannau/UGP<br>• Gweithio gyda'r Cyfadrannau a'r UGP i bennu targedau lleol mewn perthynas ag allyriadau carbon o ganlyniad i deithio busnes fel rhan o Gynllun Gweithredu ar Gynaliadwyedd ac Argyfwng Hinsawdd y Gyfadran/UGP<br>• Gweithio gyda GGS i ddatblygu a chynnal dangosfwrdd allyriadau sy'n cynnwys y data diweddaraf ar gyfer y "Trywydd i Sero" - yn gorfforaethol a fesul Cyfadran/UGP - er mwyn ein galluogi i fonitro ac adrodd ar allyriadau a chostau teithio busnes, a pharamedrau eraill sy'n ymwneud â theithio busnes.<br>• Cyflwyno adroddiadau chwarterol am allyriadau o ganlyniad i deithio i Bwyllgorau Cyfadrannau/UGP lleol neu gyfarfodydd rheoli lleol<br>• Cyflwyno adroddiadau blynyddol ar berfformiad amgylcheddol y Brifysgol i Bwyllgor Cynaliadwyedd y Brifysgol fel rhan o broses adolygu'r System Rheoli Amgylcheddol. Bydd hyn yn cynnwys allyriadau carbon mewn perthynas â theithio busnes gan y Brifysgol gyfan a fesul Cyfadran/UGP. |
| **Pwyllgor y Gyfadran/UGP neu Uwch-reolwyr** | • Arwain wrth roi'r Polisi a'r trefniadau hyn a'r hierarchaeth deithio ar waith yn eu Cyfadran/UGP.<br>• Cynnwys diweddariadau am allyriadau'r Gyfadran/UGP ar agendâu chwarterol<br>• Adrodd am ddefnyddio cyflenwyr nad ydynt wedi'u cymeradwyo gan y Brifysgol yn y Gyfadran/UGP neu hedfan yn y DU<br>• Rhannu perfformiad â gweddill y Gyfadran/UGP<br>• Cytuno ar gamau gweithredu i sicrhau gwelliant parhaus |
| **Uwch-reolwyr y Gyfadran/UGP** | • Cefnogi wrth roi'r Polisi a'r trefniadau hyn a'r hierarchaeth deithio ar waith yn eu Cyfadran/UGP |

| | |
|---|---|
| | • Sicrhau y defnyddir cyflenwyr cymeradwy/system archebu'r Brifysgol ar gyfer pob taith fusnes gan y Gyfadran/UGP<br>• Cytuno ar dargedau blynyddol ar gyfer carbon sy'n deillio o deithio fel rhan o'u Cynllun Gweithredu lleol ar Gynaliadwyedd a'r Argyfwng Hinsawdd<br>• Goruchwylio'n barhaus dargedau teithio ac allyriadau'r Gyfadran/UGP, a chynnydd tuag at eu cyflawni, bob chwarter/blwyddyn yn unol ag adroddiadau i Bwyllgor Cyfrifoldeb Corfforaethol y Gyfadran/UGP |
| **Rheolwyr Llinell/Eraill â'r awdurdod i gymeradwyo teithio** | • Sicrhau y defnyddir y Polisi a'r trefniadau hyn, yr hierarchaeth deithio, y Ffurflen Cais am Gymeradwyaeth i Deithio (os yw'n daith dramor neu'n gais i hedfan yn y DU) a system archebu'r Brifysgol wrth gymeradwyo teithio ar fusnes y Brifysgol gan staff a myfyrwyr<br>• Ystyried anghenion yr unigolyn wrth ddefnyddio'r hierarchaeth deithio, e.e. Gofynion o ran yr iaith Gymraeg, anableddau, hygyrchedd, statws gofalwr etc. |
| **Holl aelodau staff, myfyrwyr ac ymwelwyr[2]** | • Defnyddio'r Polisi a'r trefniadau hyn, yr hierarchaeth deithio, y Ffurflen Cais am Gymeradwyaeth i Deithio (yn achos teithio dramor neu hedfan yn y DU) a system archebu'r Brifysgol |

## 5 Dogfennau Perthnasol

- **Strategaeth Cynaliadwyedd ac Argyfwng Hinsawdd 2021-2025 a Pholisi Cynaliadwyedd 2020:** Dogfen sy'n amlinellu'r ymagwedd strategol at gynaliadwyedd corfforaethol ym Mhrifysgol Abertawe[3].
- **Cynllun Teithio Cynaliadwy 2020-2025:** Dogfen sy'n manylu ar ymagwedd y Brifysgol at deithio dros gyfnod penodol; caiff ei adolygu'n flynyddol yn erbyn targedau ac amcanion yn y System Rheoli Amgylcheddol (EMS)[3]
- **F-E.8.3.1 Cais am Gymeradwyaeth i Hedfan/Deithio Dramor**: Y ffurflen sy'n cael ei defnyddio yn y Brifysgol i dalu am deithio rhyngwladol/hedfan.
- **RBC - 10101 Polisi Teithio Rhyngwladol Prifysgol Abertawe:** Dogfen sy'n manylu ar y gofynion ar gyfer asesu teithio rhyngwladol mewn perthynas â diogelwch ac yswiriant.
- **Polisi a threfniadau Cerbydau Trydan a Gwefru:** dogfen sy'n manylu ar ddarparu cerbydau trydan heb allyriadau a chyfleusterau gwefru ar gyfer

[2]Pan fo Prifysgol Abertawe'n talu am eu costau teithio
[3]Mae'r dogfennau hyn ar gael ar y dudalen we Cynaliadwyedd.

cerbydau'r Brifysgol ac unigolion awdurdodedig i ddiwallu anghenion sy'n hanfodol i'r busnes a gofynion deddfwriaethol.

# 6 Y Broses

## 6.1 Coeden Benderfynu'r Hierarchaeth Deithio

Mae angen ystyried pob taith gan staff a myfyrwyr ar ran y Brifysgol mewn perthynas â





Ffigur 2.




Ffigur 2Ffigur 3

## Ffigur 3: Y Goeden Benderfynu

Mae'r Hierarchaeth Deithio (Ffigur 2) a'r Goeden Benderfynu (Ffigur 3) yn seiliedig ar deithio cyfartalog ac yn nhrefn y dewis gorau ar gyfer lleihau allyriadau carbon. Serch hynny, cydnabyddir efallai nad y dulliau hyn yw'r ffyrdd mwyaf effeithlon, hygyrch neu ddiogel o deithio ym mhob sefyllfa a dylai hyn fod yn ganllaw i gyfeirio ato.




**Ffigur 3: Y Goeden Benderfynu**

### 6.1.1 Osgoi teithio

Defnyddio technoleg i osgoi teithio yw'r dewis gorau. Mae cyfleusterau cynadledda fideo ar gael yn y Cyfadrannau ac yn yr UGP drwy GGS. [4] Holwch eich tîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Systemau (GGS) lleol am gyfleusterau'r Cyfadrannau a holwch y tîm Clyweledol am wasanaethau eraill ledled y Brifysgol (gan gynnwys yn yr UGP). [5] Gall staff ddefnyddio cynadledda Zoom hefyd ar eu cyfrifiadur personol neu ar eu ffôn clyfar. Mae rhagor o wybodaeth am Zoom ar gael ar dudalen Cynadledda Zoom GGS.

### 6.1.2 Teithio Llesol

Teithio llesol yw'r dull sy'n cael yr effaith leiaf ar yr amgylchedd, lle mae staff a myfyrwyr yn cerdded a/neu'n beicio i ddigwyddiadau busnes/ymrwymiadau ar ran y Brifysgol e.e. cyfarfodydd ac yn ôl. Wrth ddefnyddio eu beiciau eu hunain i feicio i ddigwyddiadau busnes/ymrwymiadau ar ran y Brifysgol, gall staff hawlio 20c y filltir (darllenwch y Polisïau a'r Gweithdrefnau Ariannol, E.8 Treuliau). Anogir staff a myfyrwyr hefyd i ddewis teithio llesol ar ôl cyrraedd eu cyrchfan. Gall hyn gynnwys cerdded a/neu gynlluniau llogi beic e.e. Next Bike.

### 6.1.3 Cludiant Cyhoeddus

Mae'r bws a'r trên yn ddulliau teithio ymarferol yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac Ewrop ac yn y cyrchfan. Gall manteision trafnidiaeth gyhoeddus gynnwys:

- Ôl troed carbon llai, gan leihau'r effaith ar yr amgylchedd
- Y gallu i weithio a defnyddio amser yn gynhyrchiol wrth deithio (e.e. WiFi ar yr Eurostar)
- Mae'r amser teithio'n cymharu'n ffafriol â hedfan pan gaiff yr amser teithio cyfan ei gyfrif, e.e. checio i mewn ac aros yn y maes awyr
- Mae'n helpu'r Brifysgol i gyflawni ei thargedau a'i nodau lleihau carbon[6]

Ar gyfer teithiau rhwng campysau, mae llyfrau tocynnau (diwrnod am ddim) ar gael gan bob Cyfadran/UGP sy'n cyflwyno cais amdanynt drwy Dîm Gweinyddol Ystadau. I gael manylion am ostyngiadau eraill ar gyfer teithio ar y bws i fyfyrwyr a staff, ewch i'r dudalen we Teithio ar y Bws[7].

### 6.1.4 Rhannu Car

Gall rhannu car â chydweithwyr leihau'r effaith ar yr amgylchedd wrth deithio i'r gwaith. Mae gan Brifysgol Abertawe gynllun rhannu car o'r enw 'Bydi Teithio' sydd ar gael drwy ein platfform 'SWell', sy'n eich galluogi i ddod o hyd i bobl eraill i rannu car â nhw.[8] Os ydych yn rhannu car wedi'i logi, rhaid ystyried Adran 6.1.6. Os yw aelod

[4] https://lletygarwchadigwyddiadau.cymru/lleoliadau-amlbwrpas/
[5] Gwasanaethau Clyweledol ym Mhrifysgol Abertawe: https://www.swansea.ac.uk/it-services/av-enquiry/
[6] Y Tîm Cynaliadwyedd https://www.swansea.ac.uk/cy/cynaliadwyedd/
[7] Teithio cynaliadwy https://www.swansea.ac.uk/sustainability/travel/
[8] Bydi Teithio ar SWell https://swell.teamjump.co.uk/travel-buddy

staff yn rhannu ei gerbyd ei hun, dylai gyfeirio at Adran 6.1.7. Os ydych yn teithio mewn tacsi, cyfeiriwch at Adran 6.1.8.

### 6.1.5 Cerbydau'r Brifysgol

Rhaid i bob cerbyd yng ngherbydlu'r Brifysgol fod yn 100% EV/Hydrogen. Os oes angen cerbyd diesel/petrol ar grŵp, bydd rhaid iddynt roi rheswm i gyfiawnhau hynny a rhaid ceisio cymeradwyaeth Pennaeth y Gyfadran neu arweinydd yr Adran cyn cyflwyno cais i'r Adran Gyllid.

Rhaid i Gyfadrannau/UGP sydd â'u cerbydau eu hunain eu defnyddio'n fwy effeithlon a rhannu lle bynnag y bo modd.

### 6.1.6 Llogi Ceir

Pan fydd staff/myfyrwyr yn llogi car at ddibenion gweithgareddau busnes craidd yn y brifysgol, mae angen glynu wrth y canlynol:

- Llogi car i deithio i/o gyrchfan: Os byddwch yn llogi car, gofynnwch yn y lle cyntaf am gerbyd allyriadau isel iawn. Os nad oes un ar gael, neu os na fydd yn briodol, gofynnwch am gerbyd â <0.090kg $CO_2$ / km
- Llogi car yn y cyrchfan: Rhaid dewis y cerbyd â'r allyriadau isaf ac ni ddylai fod yn uwch na 0.120 kg $CO_2$ / km oni bai nad oes dewis arall ar gael.

### 6.1.7 Car Personol

Os bydd aelod staff yn defnyddio ei gerbyd ei hun, bydd yn gyfrifol am sicrhau bod ganddo yswiriant busnes, MOT a'r math o drwydded yrru sy'n briodol ar gyfer y cerbyd ac am sicrhau bod y cerbyd mewn cyflwr da. Am ragor o wybodaeth, darllenwch arweiniad ROSPA: Driving for work.[9]

### 6.1.8 Tacsi

Dylid osgoi tacsis pan fo modd, oherwydd y teithiau ychwanegol y bydd rhaid i'r tacsi eu gwneud i gyrraedd y teithiwr ac i ddychwelyd i'w gyrchfan gwreiddiol. Os byddwch yn defnyddio tacsi, gofynnwch am y cerbyd â'r allyriadau isaf posib.

### 6.1.9 Hedfan

Dylech osgoi hedfan, yn enwedig o fewn y DU. Pan mai hedfan yw'r unig ddewis posib, rhaid ystyried yr agweddau canlynol i leihau effaith y daith ar yr amgylchedd:

- Ystyriwch hedfan yn uniongyrchol gan fod esgyn a glanio'n defnyddio symiau mawr o danwydd.
- Ystyriwch hedfan yn ystod y dydd yn hytrach na chyda'r hwyr, gan fod hyn yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.[10]

---

[9]ROSPA Driving for Work: Using Own Vehicles https://www.rospa.com/rospaweb/docs/advice-services/road-safety/employers/work-own-vehicles.pdf
[10] https://www.nature.com/articles/nature04877

- Ystyriwch y cwmnïau hedfan sy'n defnyddio ynni yn y ffordd fwyaf effeithlon[11]
- Ystyriwch ddosbarth economi

## 6.2 Teithio cyfunol

Gellir defnyddio teithio cyfunol ar gyfer un daith, er enghraifft, teithio llesol i'r orsaf drenau a thrên i'r cyrchfan.

## 6.3 Teithio diogel ac addas

Diogelwch a lles staff a myfyrwyr yw'r flaenoriaeth bennaf a dylid ystyried hyn wrth ddewis dulliau teithio priodol, yn unol â'r Polisi Teithio Rhyngwladol ac unrhyw ganllawiau eraill a gyhoeddir gan y Brifysgol. Er enghraifft, os nad yw rhywun yn gyfforddus i logi a gyrru car dramor, os nad yw'r dull teithio hwn yn hygyrch nac yn ddiogel, gallai tacsi gael ei ddefnyddio. Yn ogystal, os nad yw dulliau teithio yn ymarferol i'r unigolyn, dylid defnyddio dulliau eraill.

## 6.4 Teithio mwy clyfar

Pan fo teithio'n hanfodol ar gyfer gweithrediadau'r Brifysgol, dylai staff gydlynu eu hymweliadau lle bo hyn yn ymarferol. Gall hyn gynnwys:

- Lleihau nifer y bobl sy'n mynd i gynadleddau/digwyddiadau
- Gwneud y daith yn un aml-bwrpas drwy gynnwys ymweliadau â sefydliadau lleol (at ddibenion marchnata a recriwtio) wrth gymryd rhan mewn cynhadledd/gwaith maes/ymchwil.

Drwy gydlynu ymweliadau, gellir lleihau teithio, heb effeithio ar y canlyniadau.

## 6.5 Teithio ar ran y Brifysgol nad oes modd ei osgoi

Pan nad oes dewis ymarferol arall ond dulliau teithio ag allyriadau carbon uchel a phan nad oes modd ei osgoi, mae'r Brifysgol yn cydnabod y bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd. O ganlyniad, bydd y Brifysgol yn cynghori'r Cyfadrannau/UGP ar sut i wrthbwyso'r allyriadau a gyfrifwyd, drwy fuddsoddi mewn prosiectau cydnabyddedig a fydd yn lleihau allyriadau carbon neu'n dal carbon o'r atmosffer. Ar hyn o bryd, mae'r Brifysgol yn datblygu cynllun a fydd yn gallu cyflawni hyn fel rhan o'r Strategaeth Cynaliadwyedd ac Argyfwng Hinsawdd a'r cynlluniau cysylltiedig[12].

Bydd y weithdrefn wrthbwyso'n cael ei lansio maes o law, a chaiff y polisi a'r trefniadau hyn eu diweddaru yn ôl yr angen.  Y disgwyliad yw y caiff y weithdrefn wrthbwyso ei mabwysiadu a'i defnyddio ar raddfa gorfforaethol, gan ddarparu arweiniad i staff a myfyrwyr ar y dulliau 'gwrthbwyso' (cwmni awyren neu arall) gorau.

---

[11]Mae polisïau amgylcheddol cwmnïau hedfan ar gael ar eu gwefannau
[12]Gweler Adran 5 Dogfennau Cysylltiedig

### 6.6 Gofalwyr sy'n Teithio

Os yw'r aelod staff neu'r myfyriwr sy'n teithio'n ofalwr, dylai'r Gyfadran/UGP ystyried y canlynol:

- Yr amser angenrheidiol i deithio
- Y cymorth ariannol ychwanegol y bydd ei angen i dalu am wasanaethau gofalu dros dro ar gyfer amser teithio ychwanegol

### 6.7 Rhagor o wybodaeth a chymorth

Gall staff a myfyrwyr gael rhagor o wybodaeth a chymorth drwy Swyddog yr Amgylchedd eu Cyfadran/UGP neu drwy gysylltu â'r Tîm Cynaliadwyedd yn uniongyrchol:

- **sustainability@abertawe.ac.uk**

## 7 Nodau Datblygu Cynaliadwy Perthnasol y Cenhedloedd Unedig







## 8 Effeithiau a Chamau Gweithredu yn sgîl Diffyg Cydymffurfiaeth

Bydd Cydymffurfio â'r polisi a'r trefniadau hyn yn golygu:

- Cydymffurfio â gofynion Eco-gampws a safon ISO 14001:2015.

Trafodir diffyg cydymffurfiaeth â'r polisi a'r trefniadau hyn yn y weithdrefn **10.1 Diffyg Cydymffurfiaeth a Chamau Unioni**.

## 9 Rheoli Fersiynau

| Dyddiad | Fersiwn | Diweddaru |
|---|---|---|
| 27 Ebrill 21 | 1 | Datblygu Polisi a'r trefniadau Teithio Busnes newydd |
| 29/Mehefin/23 | 2 | Cynnwys Nodau Datblygu Cynaliadwy, cyfeirio at y cynllun Bydi Teithio a'r Polisi Cerbydau Trydan a Gwefru. Diweddaru teitlau pwyllgorau. |